

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru):

Datganiad cenedlaethol o gydweithio tuag at gychwyn y Ddeddf ar 6 Ebrill 2016

Roedd *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, Papur Gwyn Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, yn pennu gweledigaeth newydd ar gyfer trawsnewid y sector. Roedd y weledigaeth hon yn seiliedig ar gynnig y canlyniadau gorau posibl i'r rheini sydd angen gofal a chefnogaeth; sicrhau bod gan bobl fwy o lais yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, a bod ganddynt wir reolaeth drostynt; a darparu gwasanaethau cymdeithasol cyson, o ansawdd uchel, sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae llawer o'r rhaglen ar gyfer newid hon wedi'i amgáu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014 a bydd yn dod i effaith ar 6 Ebrill 2016. Mae'n creu fframwaith deddfwriaethol newydd, sy'n dod â'r gyfraith ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ynghyd ac yn ei diweddarau.

Mae'r Ddeddf wedi'i seilio ar bedair prif thema, sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

- Pobl – sicrhau bod yr unigolyn a'i anghenion yn ganolog i'w ofal, a rhoi llais i bobl a mwy o reolaeth iddynt dros gyrraedd y canlyniadau personol sy'n eu helpu i hybu eu llesiant
- Llesiant – cefnogi pobl i hybu eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant y gefnogaeth honno
- Ymyrryd yn gynharach – hyrwyddo'r defnydd o ddulliau ataliol yn y gymuned i ddiwallu anghenion pobl, cyn iddynt fynd yn rhai difrifol
- Cydweithredu - gweithio mewn partneriaeth fwy cadarn ar draws pob sefydliad er mwyn cefnogi pobl yn well i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Nid yw gwireddu dyheadau'r Ddeddf ar gyfer pobl Cymru yn rhywbeth y gall un sefydliad yn unig ei gyflawni. Rhaid wrth arweiniad cryf a chyson ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i wireddu'r newidiadau diwylliannol a'r newidiadau o ran ymarfer y mae'r Ddeddf yn ceisio eu cyflawni.

Partneriaid Cenedlaethol

Isod, ceir manylion y sefydliadau cenedlaethol sy'n gweithio gyda'i gilydd tuag at gychwyn y Ddeddf, a'u cyfrifoldebau cyffredinol:

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr
Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Confederasiwn GIG Cymru**

Darparu'r arweiniad a'r gallu rheoli prosiect angenrheidiol – ar lefel genedlaethol – i gefnogi chwe phrosiect gweithredu rhanbarthol i weithredu'r Ddeddf, yn gyson ac yn effeithiol ar draws Cymru.

Hyd yma, mae hyn wedi golygu gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Gofal Cymru, y trydydd sector a phartneriaid eraill i:

- ddadansoddi, adolygu a gwireddu pob cynllun gweithredu rhanbarthol
- tynnu sylw at feysydd â blaenoriaeth cenedlaethol, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arweinwyr yn cael eu henwi i yrru'r blaenoriaethau hyn yn eu blaen a'u gwireddu'n llwyddiannus
- datblygu gwasanaethau newydd i gefnogi gwaith i weithredu'r Ddeddf (ee DEWIS, porthol ar-lein i ddinasyddion yn darparu gwybodaeth am lesiant) a datblygu cyngor ac arweiniad i gefnogi cysondeb o ran yr ymateb (ee pecyn cymorth a setiau data i helpu i lunio Adroddiadau Asesu'r Boblogaeth)
- nodi arferion gorau, eu dal a hwyluso'r broses o'u rhannu – drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu – ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, preifat a'r trydydd sector.

At hynny, mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Confederasiwn GIG Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cymryd cyfrifoldeb am helpu awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd yn uniongyrchol i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. Maent wedi llofnodi cytundeb cydweithredol i gadarnhau eu hymrwymiad i helpu gwasanaethau ledled Cymru i gyflawni'r newidiadau sy'n angenrheidiol i'w gweithredu'n llwyddiannus.

Cyngor Gofal Cymru

Datblygu cynllun dysgu cenedlaethol sy'n rhoi i aelodau'r gweithlu gofal cymdeithasol ac ehangach yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wireddu'r Ddeddf.

Gan weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid drwy Grŵp Cyngori Rhanddeiliaid, hyd yma, mae hyn wedi golygu datblygu a hyrwyddo ystod o ddeunyddiau i godi ymwybyddiaeth, gan gynnwys modiwl e-ddysgu, i'w gyflwyno gan sefydliadau a thimau rhanbarthol. Mae archwiliad o ddeunyddiau dysgu sy'n bodoli eisoes wedi dechrau a lansiwyd cynllun grant cydgynhyrchu er mwyn datblygu deunyddiau newydd mewn meysydd allweddol: Gofalwyr, Pobl fyddar a dall, Eiriolaeth a Grwpiau Cydweithredol dan arweiniad y Defnyddiwr

Mae deunyddiau dysgu craidd wedi'u comisiynu hefyd (oddi wrth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus) ar gyfer y rheini y bydd eu swyddogaethau'n cael eu heffeithio'n bennaf gan y Ddeddf. Bydd y rhain ar gael erbyn mis Ionawr 2016 a chynhelir digwyddiadau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ar draws y rhanbarthau. Un rhan allweddol o'r gwaith yw sefydlu

'Tîm Rhithwir' – gydag aelodaeth o bob un o'r chwe thîm gweithredu rhanbarthol – i gefnogi'r gwaith o gomisiynu a chynnal yr hyfforddiant.

Bydd deunyddiau dysgu ar gyfer y rheini sy'n darparu gofal cymdeithasol a chefnogaeth, ee yn y sectorau gofal cymdeithasol, tai neu wirfoddol, ar gael o fis Hydref 2015. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda'r Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) i ddatblygu a chyflwyno rhaglen ddysgu ar gyfer arweinwyr a rheolwyr, gan ddechrau yn hydref 2015 – i'w cefnogi gyda'u swyddogaethau arwain a chyflenwi.

Mae'r holl ddeunyddiau dysgu a gomisiynwyd ar gael yn ddwyieithog ac yn rhoi sylw i'r Cynnig Rhagweithiol (o wasanaethau yn y Gymraeg) a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae gwerthusiad annibynnol a dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn helpu i lunio'r sail dystiolaeth ar gyfer cynllunio'r camau nesaf.

I gefnogi'r holl waith hwn, mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu un safle ar y we ar gyfer y Ddeddf – 'Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru' – lle gellir gweld yr holl wybodaeth ac adnoddau hyfforddi a chyfathrebu diweddaraf:

<http://www.cgcyrmu.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf>

Llywodraeth Cymru

Datblygu a gosod y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer darparu gofal a chefnogaeth yng Nghymru.

Mae'r cydrannau craidd wedi'u hamlinellu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae cyfres o is-ddeddfwriaeth yn cyd-fynd â'r Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru yn arfer pwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf mewn dwy gyfran. Cyflwynwyd y gyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn haf 2015, a chaiff yr ail ei gosod ym mis Tachwedd 2015.

Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn arfer pwerau pellach o dan y Ddeddf i gyhoeddi codau ymarfer a chanllawiau statudol. Mae'r codau, a fydd yn cael eu gosod ym mis Tachwedd 2015, yn ymwneud ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol, a'r bwriad yw eu cefnogi i arfer y swyddogaethau hynny. Mae gan y canllawiau statudol swyddogaeth gyffelyb ar gyfer yr ystod ehangach o bartneriaid sy'n cymryd rhan yn y dyletswyddau yn ymwneud â diogelu a chydweithio.

Wrth ailgynllunio'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain gwaith manwl – drwy grwpiau technegol a chynghorol – ar y manylion ymarferol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynigion deddfwriaethol hyn.

Rhoi cyfeiriad strategol a chymorth arweinyddiaeth i bob partner cenedlaethol a thîm rhanbarthol ar gyfer paratoi i weithredu'r Ddeddf.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r gallu sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu'r trawsnewidiad hwn, drwy'r prosiectau gweithredu rhanbarthol yn fwyaf uniongyrchol, a hynny drwy'r Grant Trawsnewid (sy'n £3 miliwn ar gyfer 2015/16). Gan ddibynnu ar benderfyniadau cyllidebol, er mwyn cefnogi'r broses o ymwreiddio egwyddorion y Ddeddf, disgwylir i hyn barhau hyd fis Ebrill 2017.

Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a fydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2016. Bydd adnoddau cyfathrebu, y bydd modd i bob rhanbarth eu haddasu, ar gael i randdeiliaid allweddol, i'w defnyddio ar gyfer rhannu gwybodaeth â'u grwpiau cleientiaid am y newidiadau a ddaw yn sgil y Ddeddf.

Y Dyfodol

Mae'r diagram sydd ynghlwm yn cynnig cipolwg o'r hyn fydd yn digwydd. Mae'n dangos y prif weithgareddau sydd i'w cynnal a'r prif gerrig milltir sydd i'w cyrraedd gan bob un o'r partneriaid cenedlaethol er mwyn paratoi ar gyfer y Ddeddf, a ddaw i rym ar 6 Ebrill 2016.

Wedi hynny caiff cynllun ôl-weithredu ei ddatblygu ar gyfer cydweithio hyd at fis Ebrill 2017, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn ar gyfer cynllunio gwasanaethau gwell a sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, neu ofalwyr sydd angen cefnogaeth, yng Nghymru.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

